OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 415 (Cy. 73) (C. 35)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2018

*Gwnaed - - - - 22 Mawrth 218*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 124(2) a (3) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2018

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 i rym ar 1 Ebrill 2018—

(a) adran 88; a

(b) adran 89(2)(h)(ii) a (4).

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

22 Mawrth 2018

(**1**) 2017 p. 29.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 124(2) a (3) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 ("y Ddeddf"). Dyma'r Rheoliadau cyntaf sy'n dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o'r Ddeddf o ran Cymru.

Mae rheoliad 2 yn darparu y daw adrannau 88 a 89(2)(h)(ii) a (4) o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2018.